




# YMDDIRIEDOLAETH ARCHEOLEGOL DYFED CYFYNGEDIG



# ADRODDIAD A CHYFRIFON YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2008



Neuadd y Sir  
Stryd Caerfyrddin  
Llandeilo  
Sir Gaerfyrddin  
SA19 6AF

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2008

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008.

## GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

### Prif Weithgaredd

Nod yr Ymddiriedolaeth yw gwella addysg y cyhoedd ym maes archeoleg.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gwella dealltwriaeth, diogelwch a hyrwyddiad yr amgylchedd hanesyddol ac mae'n cynnal ymroddiad rhanbarthol cryf i dde-orllewin Cymru. Anela'r Ymddiriedolaeth at feithrin **dealltwriaeth** well o'r amgylchedd hanesyddol trwy gyflawni a hyrwyddo ymchwil, archwiliadau ac ymchwiliadau. Anela'r Ymddiriedolaeth at wella **rheolaeth a chadwraeth** effeithiol yr amgylchedd hanesyddol er mwyn i genedlaethau i ddod ei astudio a'i fwynhau. Anela'r Ymddiriedolaeth at **godi ymwybyddiaeth** o'r amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo mynediad corfforol a deallusol trwy raglenni addysgol ac allgymorth.

### Cyfansoddiad

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn gwmni a gyfyngir gan warant nad oes ganddo gyfalaf cyfrannau (rhif 1198990) ac yn elusen gofrestredig (rhif 504616). Y dogfennau llywodraethu yw Memorandwm ac Erthyglau Cwmni 4 Gorffennaf 1975. Mae'r Ymddiriedolaeth yn un o bedair ymddiriedolaeth archeolegol a sefydlwyd yn wreiddiol yn y 1970au i gwmpasu Cymru gyfan.

### Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr y cwmni ac felly mae eu hadroddiad yn gyfystyr ag Adroddiad Statudol y Cyfarwyddwyr. Gan nad oes unrhyw gyfalaf cyfrannau, nid oes gan y Cyfarwyddwyr unrhyw fuddiant llesol yn y cwmni. Mae traean o'r Ymddiriedolwyr yn ymddeol bob blwyddyn ond maent yn gymwys i'w haillethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gwasanaethodd y canlynol fel Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn:

Dr J L Davies  
Mr C J Delaney  
Mr C R Musson (Cadeirydd)  
Dr E Plunkett Dillon

Yn y cyfarfod blynyddol cyffredinol ar 5 Hydref 2007, ail-etholwyd yr Ymddiriedolwr a oedd yn ymddeol, Mr Musson, o dan Erthygl 41 Erthyglau'r Ymddiriedolaeth.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Rheoli sy'n bwyllgor dirprwyedig o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Bwrdd Rheoli'n cynnwys aelodau uchod y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn unig.

Mae'r Ymddiriedolwyr presennol yn adolygu aelodaeth yn rheolaidd ac yn cynnwys swyddi Ymddiriedolwyr i'r Aelodau presennol. Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw cynyddu nifer yr Ymddiriedolwyr tu hwnt i'r nifer bresennol yn y dyfodol agos. Caiff unrhyw hyfforddiant gofynnol y mae Ymddiriedolwyr unigol yn gofyn amdano er mwyn cyflawni eu rôl ei adolygu'n gyfredol. Unwaith i Ymddiriedolwyr newydd gael eu penodi, caiff eu hanghenion hyfforddiant eu hadolygu ar unwaith.

## **Swyddogion a Swyddfa Gofrestredig**

Ar ddechrau'r flwyddyn, Mr E G Hughes oedd Ysgrifennydd y Cwmni a Phrif Swyddog (Prif Weithredwr) yr Ymddiriedolaeth, cyn cychwyn ar ei swydd newydd fel Prif Arolygydd Hen Gofadeiliau ac Adeiladau Cadw ar 1 Mai 2007. Hoffai'r Ymddiriedolwyr ddiolch i Mr Hughes yn ddiffuant am ei arweiniad llawn ysbrydoliaeth yn ystod ei flynyddoedd yn y swydd.

Penodwyd Mr K Murphy yn Ysgrifennydd a Phrif Swyddog (Prif Weithredwr) newydd yr Ymddiriedolaeth ar 1 Mai; mae'r Ymddiriedolwyr yn ei groesawu i'r swydd wedi sawl blwyddyn o wasanaeth treiddiadwy i'r Ymddiriedolaeth.

Lleolir swyddfa gofrestredig yr Ymddiriedolaeth yn Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF. National Westminster Bank plc, 59 King Street, Caerfyrddin yw banc yr Ymddiriedolaeth. Mae Morris Roberts, 14-15 Spilman Street, Caerfyrddin yn gweithredu fel cynghorwyr cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth. Clay Shaw Butler, Canolfan Datblygu Busnes, Caerfyrddin yw archwilwyr yr Ymddiriedolaeth.

## **Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi barn wir a theg o gyflwr busnes yr elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'i weddill neu ddiffyg ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol. Wrth wneud hyn, gofynnir i'r Ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifeg priodol a'u rhoi ar waith yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a chall;
- a pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei fod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg cywir sy'n datgelu, yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985 a'u bod yn unol â Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2005. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol hefyd am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac anghysonderau eraill.

## **Aelodaeth yr Ymddiriedolaeth**

Mae holl aelodau'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys yr Ymddiriedolwyr, yn cyfrannu o'u gwirfodd amser ac arbenigedd i nodau elusennol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw maint y cyfraniad hwn yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n fawr ar y gwasanaethau ac arbenigedd a ddarperir gan ei haelodau sy'n gweithredu fel Ymddiriedolwyr neu aelodau o'r Pwyllgor Rheoli, ynghyd â'r cyngor gwerthfawr a'r cyfraniad arbenigol i brosiectau unigol a ddarperir gan aelodau unigol eraill.

Ymaelodir â'r Ymddiriedolaeth trwy wahoddiad yr Ymddiriedolwyr; mae'n bersonol ac ni ellir ei throsglwyddo. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cyfanswm o 46 o aelodau. Ceir rhestr lawn o'r aelodau ar 31 Mawrth 2008 yn Atodiad A.

## **Eiddo'r Ymddiriedolaeth**

Yn ogystal â Neuadd y Sir ar Stryd Caerfyrddin y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei phrydlesu oddi wrth Gyngor Tref Llandeilo Fawr, mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen ar Leicester House, a leolir ar Stryd Caerfyrddin hefyd.

## **Staff**

Nifer gyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd 23. Ceir rhestr lawn o'r staff ar 31 Mawrth 2008 yn Atodiad B. Hoffai'r Ymddiriedolwyr fynegi eu diolch i holl staff yr Ymddiriedolaeth am eu hymroddiad ac ymdrechion yn ystod y flwyddyn.

## Hyfforddiant Staff

Yn ystod y flwyddyn, aeth aelodau staff i sawl cynhadledd/ysgol ddydd gan gynnwys: cynhadledd flynyddol Sefydliad yr Archeolegwyr Maes; cynhadledd newid yn yr hinsawdd; ac ysgol ddydd ar integreiddio archeoleg ac ecoleg. Darparwyd hyfforddiant ffurfiol i rai staff ar: sgiliau prisio prosiectau; gwerthuso staff; ceisiadau cymorth grant; a dysgu gydol oes. Roedd y cyrsiau tystysgrifedig yn cynnwys: cymorth cyntaf ac osgoi ceblau. Yn ychwanegol, darparwyd hyfforddiant mewn swydd a mentora.

## Enw'r Ymddiriedolaeth

Ers canol y 1990au, mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio'r enw **Cambria Archaeology**. Newidiwyd yr enw hwn yn gynnar yn 2008 a bydd yr enw **Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed** yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer holl weithgareddau'r Ymddiriedolaeth.

## Cofrestru Proffesiynol


Cadarnhaodd ymweliad gan aelodau o Bwyllgor Dilysu Sefydliadau Cofrestredig â swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth ac enghraifft o waith maes statws yr Ymddiriedolaeth fel **Sefydliad Archeolegol Cofrestredig Sefydliad yr Archeolegwyr Maes**. Yn ystod 2007-08, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i weithio tuag at gofrestru gyda **Buddsoddwyr mewn Pobl**. Disgwylir cofrestru'n llwyddiannus yn ystod 2008.

# ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU'R YMDDIRIEDOLAETH YN YSTOD Y FLWYDDYN

## YMCHWIL AC YMCHWILIADAU ARCHEOLEGOL

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, cyflawnwyd ystod eang o waith, gan gynnwys asesiadau a chloddiaidau cysylltiedig â bygythiadau ac a ariannwyd gan grant Cadw, a nifer o arolygon, briffiau gwyllo, gwerthusiadau, asesiadau pen desg a phrosiectau cofnodi eraill.

Cwblhawyd trydedd flwyddyn y **Prosiect Llociau Cynhanesyddol a Amddiffynnwyd** a gynorthwywyd gan grant Cadw ac ymwelwyd â mwy na 200 o safleoedd yn Sir Gaerfyrddin a diweddarau mwy na 250 o Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol. Gwnaed argymhellion amserlennu ac argymhellion eraill i Cadw. Yn ystod y prosiect grant - **Llociau Olion Cnydau yn Ne Ceredigion a Gogledd Sir Benfro** - cloddiwyd mynedfa i gaer bentir Oes yr Haearn yn **Berry Hill**, ger Trefdraeth, Sir Benfro ac arolygwyd pum safle'n geoffisegol. Dangosodd y cloddio nad oedd y gaer bentir wedi ei gorffen ac o bosibl nad oedd wedi cael ei defnyddio. Roedd hyn er gwaethaf yr ymdrech enfawr a dreuliodd ar balu ffosydd amddiffynnol sylweddol. Roedd canlyniadau geoffisegol tri o'r safleoedd a arolygwyd yn dda iawn, gyda chanlyniadau eithriadol o loc o gwmpas **Eglwys Llangan**, Sir Gaerfyrddin. Ymgwymerwyd â'r prosiect hwn â chefnogaeth Prifysgol Efrog. Yn ystod 2008-09, bydd adroddiad i'w gyhoeddi'n cael ei gynhyrchu. Cyfrannodd yr Ymddiriedolaeth, ar y cyd â thair o ymddiriedolaethau archeolegol eraill yng Nghymru, at bennod mewn llyfr a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2010 ar aneddiadau a amddiffynnwyd yng Nghymru yn yr Oes Haearn.



*Yr arolwg geoffisegol yn Eglwys Llangan a wnaed fel rhan o'r prosiect **Llociau Olion Cnydau yn Ne Ceredigion a Gogledd Sir Benfro**.*

Rhoddodd Cadw grant ar gyfer dwy raglen ôl-cloddio hefyd: y trac pren yn **Llangynfelyn**, Ceredigion, a mynwent ganoloesol gynnar yn **West Angle**, Sir Benfro. Nid yw'r cyhoeddiadau'n bendant ar hyn o bryd ond caiff adroddiad West Angle ei gyhoeddi ar y cyd â chanlyniadau'r cloddio yn y fynwent ganoloesol gynnar yn **Brownslade**, Sir Benfro. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd Cadw grant ar gyfer gwaith geoffisegol ychwanegol yn West Angle a ychwanegodd at yr hyn a gyflawnwyd eisoes.

Parhawyd i arolygu'r prosiect **Caerau, Vici a Ffyrdd** a ariannwyd gan grant Cadw gydag arolwg geoffisegol ar y gaer a'r vicus ym **Mhen Llwyn**, Ceredigion a chaer bosibl yn yr **Hen Gastell**, Aberteifi. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol o Ben Llwyn, ond roedd y rhai o'r ail safle'n negyddol. Darparwyd cefnogaeth hefyd ar gyfer arolwg geoffisegol ac arolwg topograffaid ar y gaer fechan yn **Waun Ddu**, Sir Gaerfyrddin. Gwnaed y gwaith geoffisegol gan ddefnyddio offer newydd yr Ymddiriedolaeth. Caiff canlyniadau'r prosiect hwn eu hymgorffori mewn rhifyn newydd o'r llyfr **Roman Frontiers in Wales**. Cynhyrnod yr Ymddiriedolaeth yr holl ddarluniau ar gyfer y llyfr hwn gyda chymorth grant gan Cadw a ffynonellau eraill.

Darparwyd cymorth grant Cadw ar gyfer ail flwyddyn y **Prosiect Porthladdoedd a Harbws** sy'n edrych ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Mae cyfres o dablau GIS wedi eu cynhyrchu a gefnogir gan adroddiad i lywio'r broses benderfynu.

Roedd prosiectau eraill a gynorthwywyd gan grantiau Cadw yn cynnwys: arolwg o fan angladdol a defodol cynhanesyddol yng **Nghefn Gwernffrwd**, Sir Gaerfyrddin; cynhyrchu canllaw llwybr cynhanesyddol i **Breseli**; cynhyrchu testun ar gyfer llyfr yn ar dref **Aberteifi** (gyda'r dylunio a'r argraffu yn 2008-09 yn cael eu cefnogi gan Gyngor Ceredigion); gwerthuso **Mathau o Fân Safleoedd – Amddiffynnol Cynhanesyddol, Rhufeinig a Chanoloesol Bach** ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol; cynhyrchu adroddiad ar **Fonitro'r Amgylchedd Hanesyddol; yr Adnodd Archeolegol** ar y cyd â'r Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned; Prifysgol Caerloyw; astudiaeth pen desg o'r prosiect **Trefnu Gwella** ar gyfer Sir Gaerfyrddin; a chynhyrchu testun ar fethodoleg **Nodweddau Tirweddau Hanesyddol** i'w gyhoeddi mewn arweinyfr.

Ymgwymerodd yr Ymddiriedolaeth â phrosiectau ar gyfer amrywiaeth o gleientiaid eraill – datblygwyr cyhoeddus a phreifat, awdurdodau unedol, asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau gwirfoddol ac ymgynghorwyr. Cyflawnwyd y mwyaf o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae prosiectau wedi cynnwys cloddio, gwerthuso, cofnodi adeiladau, arolygu tirwedd, asesiadau pen desg a briffiau gwyllo a oedd yn amod caniatâd cynllunio yn aml. Mae'r crynodeb canlynol yn ddetholiad o'r prosiectau mwyaf sylweddol. Mae rhestr lawn o'r holl brosiectau gan gynnwys cleientiaid yn Atodiad C.

Parhaodd gwaith ôl-gloddio ar brosiect **Brownslade Barrow**, a ariannwyd gan Ystadau'r Amddiffyniaeth gyda mewnbwn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Enillodd y prosiect hwn y Wobr **Silver Otter** am y gwaith cadwraeth gorau ar dir y Weinyddiaeth Amddiffyn. Caiff adroddiad ar y prosiect hwn ei gyhoeddi ar y cyd â'r canlyniadau o gloddio West Angle.

Ymgwymerwyd â dau gloddiaid a oedd yn cynnwys cyfranogiad cyhoeddus/cymunedol. Ym **Mharc Dinefwr**, Sir Gaerfyrddin lleolwyd safle'r baddon oer o'r 18fed-19eg ganrif yn gyflym a datgelwyd sylfeini'r adeilad. Ym **Maenclochog**, Sir Benfro, darganfuwyd amddiffyniadau ac adeiladau'r 'Hen Gastell'. Roedd dyddiadau radiocarbon yn dangos bod rhai o'r olion hyn yn cyn-ddyddio Concwest Eingl-Normanaid gogleddol Cymru.

Datgelodd gwerthusiad sylweddol, a wnaed yn **Frondeg Terrace**, Llanelli, sawl bedd ar safle capel canoloesol tybiedig. Roedd radiocarbon yn dyddio'r rhain i'r 12fed-15fed ganrif. Yn agos i ganol tref Rufeinig Gaerfyrddin, dangosodd gwerthusiad yn y **Priory Motor Mart** olion Rhufeinig na tharfywyd arnynt *in situ*. Ni ymchwiliwyd i'r dyddodion hyn yn y gwerthusiad a byddant yn cael eu cadw yn ystod unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol. Dangosodd gwerthusiad ar loc tybiedig o'r Oes Haearn yn **Hendy-gwyn ar Daf** fod y safle wedi dioddef difrod â'r ac

ychedig iawn sydd wedi goroesi ac eithrio ffosydd dwfn. Datgelwyd tŷ crwn sylweddol a nodweddion eraill yn union tu ôl i'r rhagfuriau yn ardal restredig **Caer Dale**, Sir Benfro. Roedd yr ardal dan sylw wedi bod yn cael ei defnyddio fel cwrt contractwr. Cafwyd dyddiad radiocarbon o 750 CC- 400 CC o bwll y mae'n bosibl ei fod wedi cynnwys amlogfa. Cynhyrchwyd canlyniadau llai cadarnhaol o werthusiadau eraill.

Ymgwymerwyd â nifer o asesiadau a gwerthusiadau pen desg, gan gynnwys gwaith parhaus ar ddwy fferm wynt fawr ym **Mhowys**; yng Nghapel Bangor, Ceredigion, ar dir a bennwyd ar gyfer datblygiad diwydiannol ysgafn; yng **Ngwaith Glo Ponthenri a Phentremawr**, Sir Gaerfyrddin, cyn cynlluniau adfer glo; ac ym **Monk Street**, Cidweli cyn cychwyn ar ddatblygiad tai.

Cofnodwyd yr adeiladau canlynol yn ystod y flwyddyn: **Butterhill Farm**, St Ismael; **Stackpole Manor**, Sir Benfro; a **St Thomas' Green**, Hwlfordd.

Ymgwymerwyd â sawl briff gwyllo archeolegol yn ystod y flwyddyn hefyd, yn bennaf o ganlyniad i osod amodau ar ganiatâd cynllunio. Cafwyd canlyniadau da o friff gwyllo wrth adeiladu ffordd ger **Felindre Farchog**, Sir Benfro, lle amlygodd dau dwmpath wedi eu llosgi ddyddiadau radiocarbon o 2340-2030 CC ac OC 890-1020.

## **ADDYSG A CHYHOEDDIADAU**

Mae holl ymchwil ac ymchwiliadau archeolegol yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i godi ymwybyddiaeth o amgylchedd hanesyddol Cymru. Fodd bynnag, anelai sawl un o brosiectau a gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth at hyrwyddo'r ymwybyddiaeth hwn. Mae **Strategaeth Allgymorth** yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gyfrannu at gyflawni nod elusennol sylfaenol yr Ymddiriedolaeth - addysgu'r cyhoedd mewn archeoleg - a'i rôl mewn hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol fel un o asedau gorau Cymru.

## **Treftadaeth Gymunedol**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gydnabod yr angen am hyrwyddo a dehongli'r amgylchedd hanesyddol ar lefel gymunedol. Mae 'Archeoleg Gymunedol' neu 'Archeoleg i Bawb' yn dod yn fwyfwy pwysig ledled Prydain a chydabyddir y gall y proffesiwn wneud cyfraniad mawr tuag at nifer o nodau economaidd a chymdeithasol cyfredol, gan gynnwys cynhwysiad cymdeithasol, iechyd cyhoeddus ac addysg, twristiaeth ac adfywio economaidd. Mae gan y sector gyfle hefyd i fanteisio ar y proffil uchel y mae archeoleg yn ei fwynhau yn y cyfryngau ar hyn o bryd.

## **Panelli a Thafleuni Dehongli Treftadaeth**

Mae darparu paneli dehongli treftadaeth yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar hyrwyddo amgylchedd hanesyddol y rhanbarth. Yn ystod flwyddyn, cwblhawyd neu cychwynwyd ar ryw 30 o baneli, ar gyfer amrywiaeth o gleientiaid, gan gynnwys: deuddeg ar gyfer **Teithiau Cerdded Treftadaeth Aman a Llwchwr** (a noddwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot), tri ar gyfer teithiau cerdded a beicio **Cwm Rhaeadr** (Cyngor Cymuned Cil-y-Cwm a'r Comisiwn Coedwigaeth); a chwech ar gyfer parc gwledig **Llyn Llech Owain** (Cyngor Sir Gaerfyrddin).

## **Arddangosfeydd, arddangosiadau a diwrnodau agored**

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad poblogaidd ar ddau ddydd Sadwrn yr Wythnos Archeoleg Genedlaethol ym mis Gorffennaf. Cynhaliwyd un yn **Amgueddfa Aberystwyth** ar y cyd â'r Clwb Archeolegwyr Ifainc a Gwasanaeth Amgueddfeydd Ceredigion a chynhwysodd sgysiau am gloddio yn yr ardal yn ddiweddar ac arddangosiadau. Cynhaliwyd yr ail yn **Amgueddfa Sir Gaerfyrddin**, Abergwili a chynhwysodd arddangosiadau, digwyddiadau rhyngweithiol ac arddangosiad gan grŵp ail-gynnal y Rhyfel Cartref.



Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mynychwyd neu trefnwyd nifer o ddiwyddiadau lle arddangoswyd gwaith yr Ymddiriedolaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: diwrnod agored yn swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth yn Llandeilo, a drefnwyd ar y cyd â **Chyngor Tref Llandeilo Fawr**; arddangosfa gyda chasgliad trin yn **Sioe Pontargothi**; a chyflwyniad ar **Diwrnod Treftadaeth Aberteifi**.

Cafwyd diddordeb sylweddol yn y cloddio ar safle castell **Maenclochog**. Roedd hwn yn brosiect a arweiniwyd gan y gymuned gyda'r Ymddiriedolaeth yn goruchwyllo a rheoli gwaith archeolegol. Ynghyd ag aelodau'r gymuned yn cymryd rhan yn y cloddio, ymwelodd mwy na 400 o bobl â'r safle yn ystod y gwaith a bu cryn sylw yn y cyfryngau. Cymerodd aelodau'r gymuned ran mewn cloddio'r baddon oer ym **Mharc Dinefwr**; a bu diwrnod agored ar ddydd Sadwrn gyda theithiau tywysedig o gwmpas y man cloddio, a gynhaliwyd ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn boblogaidd. Ymunodd aelodau'r gymuned â hyfforddeion o ysgol maes Prifysgol Efrog i gloddio yn **Berry Hill**, Sir Benfro. Cynigiwyd teithiau tywysedig o'r cloddio yn ystod diwrnod agored hefyd, a gefnogwyd gan arddangosfa.



*Duncan Schlee yn dangos olion y Baddon Oer, Parc Dinefwr yn ystod diwrnod agored.*

### **Darlithoedd, Sgyrsiau a Chyfarfodydd**

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae staff yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i roi darlithoedd, sgyrsiau a theithiau cerdded tywysedig i ystod eang o sefydliadau, a chyflwynwyd papurau mewn nifer o weithdai, cynadleddau a seminarau. Rhoddwyd neu arweiniwyd cyfanswm o 58 o sgyrsiau a theithiau cerdded tywysedig gan staff yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod haf blynyddol **Cymdeithas Archeolegol Cambria** yn Sir

Gaerfyrddin ym mis Awst. Trefnodd Marion Page o'r Ymddiriedolaeth raglen ddigwyddiadau'r wythnos a rhoddodd sawl un o staff yr Ymddiriedolaeth sgysiau ac arwain teithiau cerdded. Yn gynwysedig hefyd oedd pedwaredd **Ysgol Ddydd Archeoleg Sir Benfro** a drefnwyd gan Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, â chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth, gyda sgysiau'n cael eu rhoi gan staff yr Ymddiriedolaeth a siaradwyr eraill.

Fel rhan o'r **Cynllun Henebion Symudol** bu i'r Ymddiriedolaeth gysylltu a chyfarfod â grwpiau ac unigolion synwryddion metel a chofnodi nifer fawr o arteffactau.

Yn ychwanegol, roedd staff unigol yn uniongyrchol ran o gynrychioli'r Ymddiriedolaeth a chyfrannu at weithgareddau nifer fawr o sefydliadau a grwpiau allanol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, er enghraifft: Cymdeithas Archeolegol Cambria; Cyngor Archeoleg Prydain Cymru; Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol (ALGAO) ar lefel y DU a chymdeithas genedlaethol; Pwyllgor Sefydliadau Archeolegol Cofrestredig Sefydliad yr Archeolegwyr Maes; Panel Archeolegol Diwydiannol Cymru; y Grŵp Ymgynghorol 'What's in Store'; Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Cymru; y Gymdeithas dros Archeoleg Eglwysi; Grŵp Ymchwil a Chynghori Cadwyni De Sir Benfro; Grŵp Peirianeg Arfordirol Sir Gaerfyrddin a Bae Abertawe; Fforwm Arfordir Sir Benfro; Grŵp Cynghori Esgobaeth Tyddewi; y Grŵp Astudio Bryngaerydd; sawl prosiect PLANED; a sawl cymdeithas a grŵp hanes ac archeoleg lleol. Mynychodd staff yr Ymddiriedolaeth fwy na 220 o gyfarfodydd gyda sefydliadau neu unigolion eraill yn ystod y flwyddyn.

## Adroddiadau a Chyhoeddiadau


Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd llyfryn a thaflen ar **Gastell Caerfyrddin** ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin a chyhoeddwyd llyfryn ar **Gloddio Metel ar Ucheldir Ceredigion** gan Cadw ac Ysbryd y Cloddwyr. Y gobaith yw y bydd y llyfrynau'n codi ymwybyddiaeth o'r safleoedd hyn. Gwnaed cynnydd ar lyfryn sy'n dathlu treftadaeth **Aberteifi** ar gyfer Cadw a Chyngor Ceredigion. Disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2008-09. Gwnaed cynnydd hefyd ar gynhyrchu dau lyfryn prawf am safleoedd cynhanesyddol ar **Fynydd Carningli/Mynydd Melyn** a **Phreseli**. Caiff y rhain eu cyhoeddi yn gynnar yn 2008.

Roedd y papurau academiaidd a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: 'Excavation of Neolithic pits, three ring-ditches, and a palisaded enclosure at Cwm Meudwy, Llandysul, Ceredigion, 2003', yn *Archaeologia Cambrensis*; 'A survey of charcoal-fuelled iron working industries of Carmarthenshire and Pembrokeshire', yn *Post-Medieval Archaeology*; 'A round barrow at Pen y Bont, St Davids, Pembrokeshire: Salvage Excavation 1976', yn *Archaeology in Wales*; a phapurau a chyfraniadau byr eraill ar gloddio ac arolygon yn y rhanbarth yn *Archaeology in Wales*.

Parhaodd gwaith ar symud adroddiadau academiaidd yn eu blaen er mwyn eu cyhoeddi. Roedd y rhain yn cynnwys: cloddio'r trac pren yn **Llangynfelyn**; cloddio mynwent ganoloesol gynnar yn **West Angle**; cloddio mynwent ganoloesol gynnar yn **Brownslade**; cloddio safle gwaith metel canoloesol cynnar yn yr **hen burfa Esso**, Aberdaugleddau; **safleoedd angladd a defodol cynhanesyddol yng Ngheredigion**; a monograff ar **Gastell Caerfyrddin**.

Yn ychwanegol, cynhyrchodd staff yr Ymddiriedolaeth fwy nag 80 o adroddiadau mewnol yn amrywio o'r amlrifyn **A Survey of Defended Enclosures of Carmarthenshire 2007-08** i adroddiadau byrrach ychydig o dudalennau o hyd ar friffiau gwyllo

*Clawr y llyfryn cloddio metel.*





archeolegol.

Cynhyrchwyd tair **newyddlen** yn ystod y flwyddyn a chylchredwyd y rhain yn helaeth. Gwnaed cyfraniadau hefyd i newyddlen Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro **Historic Environment Review**.

### **Cefnogaeth Addysg a Hyfforddiant Prifysgol**

Yn ystod y flwyddyn, darparodd y cloddio yn **Berry Hill** gyfle hyfforddiant ffurfiol i fyfyrwyr archeoleg. Roedd y cloddio hwn yn cynnwys myfyrwyr rhyngwladol o ysgol maes flynyddol Prifysgol Efrog a leolir yng Nghastell Henllys. Roedd cyfle hefyd i aelodau o'r gymuned gymryd rhan yn y cloddio ym **Maenclochog** a'r **baddon oer**, Parc Dinefwr.

Parhawyd i gynnig lleoliadau myfyrwyr yn swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth. Yn ystod y flwyddyn, roedd y lleoliadau hyn yn cynnwys myfyrwyr o nifer o ysgolion a cholegau lleol.

### **Gwefan**

Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ac ychwanegwyd ati'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn llwyddiant dyddiaduron palu blaenorol, darparwyd diweddariadau dyddiol tebyg a lluniau ar gyfer y cloddio yn **Berry Hill** a'r cloddio cymunedol ym **Maenclochog**.

Mae'r wefan yn adnodd addysg ac ymchwil gwerthfawr iawn ac mae'n ffordd effeithiol o ledaenu holl agweddau ar waith yr Ymddiriedolaeth. Gellir mesur ei llwyddiant gan nifer fawr yr ymwelwyr sy'n defnyddio'r cyfleuster yn rheolaidd. Dyma gyfeiriad y wefan: **[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)**

### **Y Wasg / Cyfryngau**

Ymddangosodd nifer o brosiectau'r Ymddiriedolaeth yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys teledu, radio a phapurau a chyfnodolion lleol a chenedlaethol. Y cloddio ym **Maenclochog** ddenodd y sylw mwyaf, gydag erthyglau yn y papurau lleol ac eitemau ar y radio a theledu lleol a chenedlaethol.

Cymerodd staff ran mewn sawl cyfweiliad radio i hysbysebu digwyddiadau'r Ymddiriedolaeth neu i ddisgrifio darganfyddiadau archeolegol diweddar.

### **GWASANAETHAU ARCHEOLEGOL**

Mae dwy elfen i'r Gwasanaethau Archeolegol. Yn gyntaf, cynnal a datblygu **Cofnod Amgylchedd Hanesyddol** rhanbarthol yr Ymddiriedolaeth neu HER, a ariennir yn rhannol gan y Comisiwn Brenhinol ar Hen Gofebion a Chofebion Hanesyddol Cymru (RCAHMW). Yn ail, **Gwasanaethau Curadurol**: darparu cyngor i gyrff unedol a chyrff statudol ac anstatudol ar ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r ddau wasanaeth hwn yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau unedol **Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin**, ynghyd â **Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** a rhan o **Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi parhau i ddarparu cefnogaeth ariannol ychwanegol ar ddarparu cyngor ar yr amgylchedd hanesyddol wrth reoli a hyrwyddo archeoleg **Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro**. Ategwyd y gefnogaeth hon gan grant Cadw i weithredu rhaglen o waith rheoli i Gofebion Rhestredig yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r adnoddau hyn wedi caniatáu i'r Ymddiriedolaeth gyflogi **Archeolegydd Parc** amser llawn.

Darparodd pob un o bum awdurdod cynllunio'r rhanbarth gefnogaeth ariannol barhaus ar gyfer darparu **Cyngor Cynllunio Archeolegol** (tu hwnt i'r gefnogaeth grant gan Cadw). Mae'r awdurdodau hyn fel a ganlyn: Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro; Cyngor Sir Penfro; Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Cyngor Sir Gaerfyrddin; a Chyngor Ceredigion. Mae'r

Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ddiolchgar iawn i'r awdurdodau am y gefnogaeth hon, sy'n helpu i sicrhau y gellir cynnal y lefel uchel o wasanaeth a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth.

Darparodd Cadw gymorth grant hefyd ar gyfer cyfraniad cychwynnol yr Ymddiriedolaeth at ddarpariaethau amgylchedd hanesyddol **Cynllun Amaeth-Amgylchedd Tir Gofal** Cymru gyfan. Darparwyd cyllid ychwanegol gan Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru i dalu am y gost o ymweld â ffermydd ar gyfer nifer ddetholedig o ffermydd yn y cynllun.

Darparodd y Comisiwn Coedwigaeth gyllid ar gyfer darpariaeth amgylchedd hanesyddol y cynllun **Coetiroedd Gwell i Gymru**.

### **Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol**

Mae'r cofnod yn cynnwys cofnod papur a chronfa ddata ddigidol. Mae staff cofnodi wedi parhau i fewngofnodi data newydd, cyflawni gwaith cynnal a chadw cyffredinol, gwaith datblygu ac ymateb i ymholiadau mewnol ac allanol.

Yn ystod y flwyddyn, aeth **Oxford Arch Digital**, a oedd wedi bod yn datblygu system meddalwedd newydd i'r pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru, i mewn i weinyddiaeth. Mae Clarinet Systems wedi cymryd drosodd ond nid oedd ganddynt unrhyw ddi-ddordeb mewn parhau i ddatblygu system meddalwedd yr ymddiriedolaethau. Ym mis Tachwedd 2007, comisiynodd y pedair ymddiriedolaeth **Steve Smith** i ddatblygu system meddalwedd newydd seiliedig ar y we. Cynhyrnod ef system weithio'n gyflym iawn ac, erbyn diwedd mis Mawrth 2008, roedd yr ymddiriedolaethau'n barod i'w phrofi. Bydd gwaith datblygu'n parhau yn ystod 2008-09. Seilir y system newydd ar feddalwedd a rennir a'r bwriad yw y bydd yr ymddiriedolaethau'n gallu datblygu arbenigedd yn fewnol er mwyn cynnal a datblygu'r system.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cyfanswm y cofnodion ar y gronfa ddata graidd yn 39,147. Nid yw'r nifer hon wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf gan fod cofnodion newydd wedi cael eu cadw mewn cronfeydd data ar wahân ac maent yn aros am gael eu symud i'r meddalwedd newydd. Mae cofnodion newydd a gwella'r cofnodion presennol yn parhau i gael eu hychwanegu o brosiectau ymchwil ac ymchwilio'r Ymddiriedolaeth a phrosiectau ffynonellau allanol; cyhoeddwyd 1484 o rifau cofnod cynradd; 45 o rifau catalog lluniau a 117 o rifau adrodd.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fod yn rhan o gyfnewid data craidd gyda phartneriaid eraill **END** (Cronfa Ddata Genedlaethol Estynedig i Gymru).

Parhawyd i gynnig cefnogaeth trwy grant curadurol Cadw ar gyfer darparu gwybodaeth o'r HER yn ehangach a datblygu gweithgareddau allgymorth. Ymdrinniwyd â chyfanswm o 163 ymholiad allanol yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i fynychu cyfarfodydd gyda'i phartneriaid er mwyn gweithio tuag at y nodau a amlinellir yn y **Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion sy'n Perthyn i Amgylchedd Hanesyddol Cymru**.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol HER Dyfed**

Ar 18 Ionawr 2008, sefydlwyd **Ymddiriedolaeth Elusennol HER Dyfed** gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed fel yr unig ymddiriedolwr. Pwrpas yr ymddiriedolaeth newydd hon yw diogelu'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (HER) at ddefnydd y cyhoedd pe bai Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (y rhiant-ymddiriedolaeth) yn mynd yn fethdalwr. Ni fydd Ymddiriedolaeth Elusennol HER Dyfed yn gwneud unrhyw weithrediadau ariannol ond mae ganddi'r pŵer i wneud hynny os bydd angen. Mae'r tair ymddiriedolaeth archeolegol arall wedi sefydlu ymddiriedolaethau elusennol HER tebyg.

## Gwasanaethau Curadurol: Cynllunio

Mae'r maes hwn o waith yr Ymddiriedolaeth yn perthyn yn bennaf i dasgau rheoli datblygu, er bod rhai ymgynghoriadau sy'n effeithio ar safleoedd archeolegol yn codi tu allan i'r system cynllunio hefyd. Yn ystod y flwyddyn, hysbyswyd yr Ymddiriedolaeth o 6406 o geisiadau cynllunio. O'r rhain, roedd ar 3056 angen gwerthusiad manwl, a arweiniodd at weithredu pellach mewn 292 o achosion, gan gynnwys argymhellion ar gyfer asesiadau, gwerthusiadau, cloddio a gwaith cofnodi cyn datblygu, neu friffiau gwyllo yn ystod datblygu. Ar 11 o achlysuron, yr argymhelliad oedd gwrthod ar sail archeolegol.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu ei pherthynas waith dda gyda'r awdurdodau cynllunio rhanbarthol. Yn gynyddol, mae staff yr Ymddiriedolaeth yn cyfathrebu gyda swyddogion cynllunio rhanbarthol trwy e-bost ac mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at e-gynllunio ym mhob awdurdod. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd rhan fwyaf y gwaith cynllunio'n cael ei wneud yn electronig.

Comisiynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin yr Ymddiriedolaeth i baratoi Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar gyfer **Archeoleg a Datblygu yn Sir Gaerfyrddin**. Cyflwynwyd drafft i'r awdurdod.

Mewn ymateb i geisiadau, mae Archeolegydd Cynllunio'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i baratoi briffiau, cytuno ar fanylebau ac ymgymryd ag ymweliadau monitro i amrywiaeth o ddatblygiadau.

Cynhwysai gwaith achos cyfredol sylweddol darparu cyngor manwl ar geisiadau yn nhrefi hanesyddol y rhanbarth ac aneddiadau hanesyddol eraill. Yn **Sir Gaerfyrddin**, daethpwyd i gytundeb lle bydd olion Rhufeinig pwysig sy'n agos i ganol y dref Rufeinig yn cael eu gwarchod trwy cynllunio sylfeini sensitif, ac ar safle'r **Hen Farchnad Anifeiliaid Byw**, cloddiwyd bastiynau amddiffynnol o Ryfel Cartref yr 17eg ganrif gan yr archeolegydd dan gontract. Yn **Llanelli** yn **Frondeg Terrace** daethpwyd i gytundeb i eithrio ardal mynwent ganoloesol a ddarganfuwyd yn ystod gwerthusiad. Bydd safle'r fynwent yn ffurfio ardal agored/gardd yn y datblygiad tai arfaethedig. Caiff olion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol a ddarganfuwyd yn ystod gwerthusiad yn **New Moat**, Sir Benfro eu heithrio o ddatblygiad tai a'u claddu'n rhannol o dan faes parcio ysgafn. Parhaodd datblygiadau arfaethedig yn ac o gwmpas tref hanesyddol **Penfro** i achosi pryder, gan gynnwys ffordd liniaru gynlluniedig.

Parhawyd i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar faterion rheoli treftadaeth tu allan i'r fframwaith cynllunio lleol mewn perthynas â gwaith coedwigaeth, trin safleoedd cloddio metel, safleoedd arfordirol ac amaethyddol.

Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i 31 o ymgynghoriadau gan ddiwydiannau gwasanaeth, gan gynnwys cynlluniau **Dŵr Cymru/Welsh Water** ynghyd ag ymgynghoriadau gan **Western Power** ac **Asiantaeth yr Amgylchedd**.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ymroi i ddarparu cyngor mewn perthynas ag adeiladu **pibell nwy** newydd y **Grid Cenedlaethol**. Cwblhawyd gwaith maes ar y darn cyntaf, 120 o gilomedrau o Aberdaugleddau i Aberdulais, yn gynnwys yn 2007 ac ar yr ail ddarn, 115 o gilomedrau o Felindre i Tirley, yn hwyr yn 2007. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau â'i rôl, yn darparu cyngor yn ystod cyfnod ôl-cloddio'r prosiect.

Darparwyd gwybodaeth ar 9 **Hysbysiad Tynnu Gwrychoedd** ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, ar gais Cadw, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i wneud sylwadau ar **Geisiadau Caniatâd Cofadeiliau Rhestredig**.

## Gwasanaethau Curadurol: Rheoli Treftadaeth

Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i ymgynghoriadau ar amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys sylwadau ar y Papur Gwyn **Diogelu Treftadaeth ar gyfer yr 21ain Ganrif**.

Ar lefel fwy lleol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fod yn rhan o Bartneriaeth Tirwedd Ymlaen Dyffryn Tywi sy'n ceisio datblygu prosiect cadw tirwedd o bwys, **Tywi Afon yr Oesoedd**. Penodwyd yr Ymddiriedolaeth yn gcontractwr arweiniol ar gyfer elfen Ymchwilio i Dirwedd y prosiect. Cyflwynwyd cais mawr i Gronfa'r Loteri Treftadaeth yn 2007. Disgwylir penderfyniad ar y cais hwn yng ngwanwyn 2008. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi parhau â'i rôl mewn cynghori Ymddiriedolaeth Cadw Adeiladau Cwdwgan ar ddyfodol **Castell Aberteifi**.

Neilltuwyd ychydig o amser **Archeolegwr Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** i waith ôl-cloddio ar **Brownslade Barrow** a **Maenclochog**. Cynhwysai gwaith achos llunio cynlluniau rheoli a/neu wneud gwaith adfer ar sawl safle gan gynnwys: **Sisters' House**, Minwear; **Maen Hir Bedd Arthur**, Mynydd Carningli; a **Chastell Nanhyfer**. Trafodwyd archeoleg **Ynys Sgomer** a'r beddau sy'n parhau i erydu yn **Sain Ffraid**. Cychwynwyd prosiect arbrofol ar y cyd ag RCAHMW yn dysgu technegau arolygu sylfaenol i aelodau **Castell Walwyn** a grwpiau hanesyddol **Coastlands**. Sefydlwyd **'Tirwedd Fyw'** yn y Parc Cenedlaethol ynghyd â phortread o'r amgylchedd hanesyddol. Mynychodd Archeolegydd y Parc y cyfarfod cychwynnol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i roi cyngor i **Bwyllgor Ymgynghorol Esgobaeth Tyddewi** ar gyfleusterau a **Phwyllgor Ymgynghorol Adeiladwaith Eglwys Gadeiriol Tyddewi**.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gymryd rhan yn y **Cynllun Henebion Symudadwy**, cynllun gwirfoddol ar gyfer adrodd a chofnodi darganfyddiadau archeolegol. Mae'r darganfyddiadau o bwys a gofnodwyd wedi cynnwys: dagr o'r Oes Efydd oddeutu 1300CC a broetsh cylchog canoloesol ym Mae Abertawe; nifer o ddarganfyddiadau Rhufeinig yn ardal Aberteifi; a chlip Rhufeinig o Landeilo.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fod yn gyfrifol am ddarpariaethau amgylchedd hanesyddol **Cynllun Amaeth-Amgylchedd Tir Gofal** y rhanbarth. Yn ystod y flwyddyn, ac â chymorth grant gan Cadw, mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu gwybodaeth ar 90 o ymgynghoriadau fel rhan o'r broses adrodd ar yr amgylchedd hanesyddol (HE1), gan gynnwys 10 HE1 wedi eu diweddarau a ddarparwyd fel rhan o'r adolygiad tymor canolig (5 mlynedd) o 102 o ffermydd. Cynhwysai rhai o'r rhain dir ychwanegol a gyflwynwyd i ffermydd erbyn adeg yr adolygiad. Yn ychwanegol, yn ystod y flwyddyn, trefnwyd 6 ymweliad a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; paratowyd adroddiadau ymweld fferm llawn (HE2) ar gyfer 3 o'r rhain. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi parhau i fod yn gyfrifol am ddarpariaethau amgylchedd hanesyddol y cynllun **Coetiroedd Gwell i Gymru**. Â chefnogaeth cymorth grant gan y Comisiwn Coedwigaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i 91 o ymgynghoriadau fel rhan o'r adroddiad amgylchedd hanesyddol (WHE1) a chynhyrchwyd 43 o WHE1; paratowyd adroddiadau ymweld (WHE2) ar gyfer 3 o'r rhain.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

Fel sefydliad sector gwirfoddol, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddibynnu'n fawr ar gymorth grant gan Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Roedd y cymorth grant hwn yn cyfrif am ychydig mwy na 47% o gyfanswm adnoddau newydd yr Ymddiriedolaeth (2006-07: 43%). Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth barhaus hon.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008, treuliodd 5.8% o gyfanswm yr adnoddau ar reoli a gweinyddu'r elusen (2006-07: 6.5%), swm bach ar gyhoedduswydd a hysbysebu a'r gweddill ar wariant elusennol uniongyrchol ar y gweithgareddau a ddisgrifiwyd uchod.

Mae'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn tan 31 Mawrth 2008 yn dangos diffyg incwm dros wariant o £25,191 (2006-07: diffyg ariannol o £5496).

## **Polisi Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi cronfeydd wrth gefn sydd ei angen er mwyn cynnal gwasanaethau yn achos problemau dros dro mewn unrhyw un o'r prif feysydd incwm neu wariant neu os bydd yr Ymddiriedolaeth yn wynebu problem ariannol annisgwyl. Disgwylir y byddai'r gronfa wrth gefn yn cwmpasu unrhyw ddiffyg ariannol yn y tymor byr hyd nes y gellid gweithredu i adfer y sefyllfa. Byddai'r cronfeydd yn cael eu defnyddio yn yr amgylchiadau canlynol yn unig: costau dileu swyddi ar ôl gwagio pob ffynhonnell arall; costau gweithredu hanfodol ar ôl gwagio pob ffynhonnell arall; wrth fynd i unrhyw orddrafft gorfodol. Cyfrifwyd lleiafswm y cronfeydd wrth gefn ar sail costau dileu swyddi chwe aelod o staff ar raddfeydd amrywiol.

Sefydlwyd y gronfa wrth gefn yn 2000/2001 gyda swm cychwynnol o £15,000. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu trosglwyddo 10% o unrhyw ormodedd gweithredol neu £5,000, pa un bynnag oedd yr isaf i'r gronfa wrth gefn yn flynyddol. Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa ariannol anffafriol bresennol, ni throsglwyddwyd unrhyw arian i'r gronfa wrth gefn yn 2006/07. Mae'r gronfa'n parhau yn £35,340 felly.

## **Cronfeydd penodedig**

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd gan yr Ymddiriedolaeth £7609 wedi ei ymroi ar gyfer datblygu llwyfan digidol newydd y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £2091 ac mae £5518 yn weddill.

## **Adolygu risg**

Mae'r Pwyllgor Rheoli'n parhau i adolygu'r risgiau mawr y mae'r elusen yn agored iddynt. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r systemau a sefydlwyd i leddfu'r risgiau hynny. Caiff effaith risgiau mewnol ei lleihau trwy weithredu gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi pob gweithrediad, datblygu system ar gyfer monitro cynnydd prosiectau unigol yn rheolaidd a sicrhau bod system wrth gefn ddigonol ar gael ar gyfer sgiliau staff hanfodol. Parheir i adolygu'r gweithdrefnau hynny yn achlysurol er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fodloni anghenion yr elusen.

## **Rhagolygon ar gyfer 2008-09**

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi trefnu grant Cadw cymeradwyedig o £283,252 ar gyfer 2008-09, o gymharu â grant cychwynnol o £291,579 yn 2007-08. Yn ychwanegol, cymeradwywyd £29,455 ar gyfer HER gan RCAHMW (£28,875 yn 2007-08). Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2007-08, roedd rhyw £242,699 o ffynonellau eraill wedi cael eu sicrhau ar gyfer 2008-09.

## **Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr**

Cyn belled ag y bo'r Ymddiriedolwyr yn gwybod, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol (fel y'i diffinnir gan adran 234ZA Deddf Cwmnïau 1985) nad yw archwilwyr y cwmni'n gwybod amdani, ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwyr er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr y cwmni'n gwybod am y wybodaeth honno.

## **ARCHWILWYR**

Penodwyd Clay Shaw Butler yn archwilwyr yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn 2007-08 yn unol ag adran 385 Deddf Cwmnïau 1985.

## **SAIL PARATOI**

Paratoir adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn unol â darpariaethau arbennig Rhan VII Deddf Cwmnïau 1985 sy'n ymwneud â chwmnïau bach.



**Trwy orchymyn Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'K Murphy', written in a cursive style.

**K Murphy**  
**Ysgrifennydd y Cwmni**      **8 Medi 2008**